GloballySusDCymru
Cyfathrebu Datblygiad Cynaladwy ar draws Cymru a'r Byd

Hydref 2008

CROESO

Mae angen trawsffurfio ein ffordd o feddwl ac ymddwyn yng Nghymru os ydym am gyflawni datblygiad cynaladwy. Dyma gasgliad adroddiad 'Trawsffurfio Cenedl' lansiodd Cynnal Cymru yn ein cyfarfod blynyddol mis Medi, stori clawr mis yma.

Wrth i'r angen am weithredu dod yn fwy prys, mae Cynnal Cymru yn bwriadu adeiladu symudiad torfol yng Nghymru a wnaiff ein gyrru tuag at ddyfodol cynaladwy neu fan lleiaf cynyddu hydwythdedd cymunedau Cymreig yn wyneb newid anochel.

Yn y rhifyn hwn, dysgwch hefyd am lwyddiannau Abertawe yn ein herthygl Safbwynt gyda Philip McDonnell. Ynghyd â'ch holl ddigwyddiadau eraill cewch fanylion am ddigwyddiad diweddaraf nrg4SD yn Llydaw ar 29-30 Hydref ac am ddathliadau penblwydd Sefydliad Materion Cymru yn 21ain oed ar y 16 Hydref gyda'u gwestai yr Ysgrifennydd Tramor David Miliband AS.

Pob Hwyl

Helen Nelson
Executive Director

Cyfarwyddwr Gweithredol

Cynnal Cymru - Sustain Wales
www.cynnalcymru.com /
www.sustainwales.com

Cyfranwch i'r rhifyn nesaf
Danfonwch eich newyddion i: **newyddion@cynnalcymru.com**

NEWYDDION CYMRU

Mae'r Her i Drawsffurfio wedi ei Osod - o fewn 20 Mlynedd

Dros y tair blynedd diwethaf mae Cynnal Cymru-Sustain Wales wedi bod yn brysur yn hela tystiolaeth trwy weithdai, cynadleddau, trafodaethau cyhoeddus, arolygon a grwpiau arbenigol ac maent nawr wedi cyhoeddi eu darganfyddiadau yn yr adroddiad argyhoeddiadol Trawsffurfio Cenedl.

Dechreuodd y rhaglen waith nôl yn 2005 i helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu Cynllun Datblygiad Cynaladwy teilwng ar gyfer 2008 a thu hwnt.

Ynghyd â chreu cynllun canmoladwy sydd â chefnogaeth ystod eang o'r fudd-ddeiliaid sydd eu hangen i effeithio newid sylweddol, mae'r adroddiad yn bwriadu cyfarwyddo'r agenda yng Nghymru a chyfrannu tuag at y ddeialog.

Mae'r adroddiad yn dangos bod brwdfrydedd ac ewyllys da yn gyffredin yng Nghymru gyda nifer o enghreifftiau da o ymarfer gorau i'w gweld ar hyd y wlad. Wrth i'r angen am weithredu dod yn fwy brys, rhaid i daclo newid hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol fod ar flaen agenda datblygiad cynaladwy.

Mae'r adroddiad yn awgrymu bod economi cynaladwy a lleol yn holl bwysig ond mae'n derbyn bod newid trawsffurfiol o'r fath - symud o fewn 20 mlynedd i fyw yng ngo iawn o fewn terfynau naturiol, yn parchu'r amgylchedd naturiol fel ein system Cynnal bywyd - yn her sy'n wynebu pawb ar bob lefel o gymdeithas.

Fan lleiaf, yn ôl yr adroddiad, mae angen i Gymru erbyn 2012:

- Drawsnewid y ffordd mewn plannir egwyddorion datblygiad cynaladwy i mewn i bolisi Llywodraeth y Cynulliad, a chynyddu dealltwriaeth ac arweiniad ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol;
- Rhoi polisïau ar waith sy'n hybu economi cynaladwy a chyfiawnder cymdeithasol mewn meysydd fel cludiant, ynni, bwyd a thai;
- Trawsffurfio gwaith ar lefel sylfaenol a galluogi bywydau cynaladwy.

Mae Cynnal Cymru wedi penodi tîm polisi a datblygiad newydd yn ddiweddar, Neil Ingham (Rheolwr Polisi), Michele Aitchison (Cynghorydd Polisi) a Rhodri Thomas (Swyddog Datblygu), i ddwyn y gwaith yma ymlaen a hoffent siarad â chi. Cadwch lygad allan am gyfathrebiaeth yn y dyfodol agos ond yn y cyfamser cysylltwch â nhw ar 02920 19 20 21. Mae adroddiad Trawsffurfio Cenedl ar gael i'w lawrlwytho ar www.cynnalcymru.com.

Ffair Werdd Abertawe

Mae Canolfan Amgylchedd Abertawe unwaith eto yn cynnal Ffair Werdd Abertawe sydd Sul 30 Tachwedd o 10yb – 4yp yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe.

Bydd rhywbeth i bawb yn y Ffair Werdd gyda hyd at 50 stondin yn cynnig cynnyrch ailgylched, masnach deg, organig, ecogyfeillgar ac ynni adnewyddol, gwaith pren, anrhegion wedi gwneud â llaw, llyfrau gwyrdd a llawer mwy! Peidiwch â cholli'r cyfle i ddarganfod rhoddion Nadolig perffaith ni fydd yn costio'r ddaear.

Am ddysgu mwy am y materion amgylcheddol sy'n effeithio arnoch chi? Ewch i'r stondinau gwybodaeth ac ymgyrchoedd, darganfyddwch mwy am ailgylchu yn eich ardal neu gwirfoddolwch gyda grŵp cadwraeth leol. Cynhelir hefyd lansiad ffilm ddiweddaraf Undercurrents, *'On the Push - A Surfer's Guide to Climate Change'*, gwelwch www.undercurrents.org.

Mae mynediad am ddim. Trefnir y Ffair Werdd gan y Ganolfan Amgylcheddol, elusen leol annibynnol. Ffoniwch 01792 480200 neu gwelwch www.environmentcentre.org.uk.

Mentro Allan i'r Ardd yng Nghartref Dyfi

Trigolion Cartref Dyfi Ivy (yn y porffor) ac Elsie May (yn y coch) gyda dylunydd gerddi therapiwtig Kate Doubleday.

Mae trigolion Cartref Dyfi ym Machynlleth wedi bod yn brysur yn creu gardd synhwyraidd gyda chymorth Mentro Allan Bro Ddyfi (Venture Out) a BUPA.

Creuwyd yr ardd gan Kate Doubleday, arbenigwr mewn dylunio gerddi cymunedol, gyda help gan David Thorpe, trigolion Cartref Dyfi a staff Mentro Allan. Meddai Kate: 'mae'r ardd yn cyffroi'r holl synhwyrau gan gynnwys blas, cyffyrddiad, sain ac arogl, i'w fwynhau gan bawb gan gynnwys rhai â thrafferthion yn gweld neu'n symud yn rhwydd.'

Meddai Teresa Walters, Cydlynydd Mentro Allan Bro Ddyfi, prosiect ymchwil a gweithgarwch iechyd lleol: 'Mae Mentro Allan yn ceisio deall y rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau tu allan. Byddwn yn cynnal y gweithgareddau ac ymholi i beth maent yn ei fwynhau a beth arall hoffent wneud.

Cysylltwch â Teresa Walters neu Delyth Richards, Mentro Allan Bro Ddyfi Venture Out ar 01654 703965 neu mentro.allan@ecodyfi.org.uk.

Cinio gyda'r Ysgrifennydd Tramor yr Anrhydeddus David Miliband AS

Mae Sefydliad Materion Cymru yn 21 oed eleni. I ddathlu maent yn trefnu cinio arbennig yng Ngwesty St David's, Caerdydd ar 16 Hydref gyda'r Ysgrifennydd Tramor yr Anrhydeddus David Miliband AS fel siaradwr gwadd.

Trefnir y digwyddiad mewn cysylltiad â Chlwb Busnes Caerdydd felly disgwylir i lefydd fynd yn gyflym iawn. Cost y cinio ar gyfer aelodau Sefydliad Materion Cymru yw £45 (£50 i eraill).

Bydd y noson yn dechrau gyda derbyniad am 7yh. Yna bydd annerch gyhoeddus gan yr Ysgrifennydd Tramor am 7.45yh. Bydd y cinio am 8.45yh pan fydd cyfle i ofyn cwestiynau iddo. Bydd Cadeirydd Sefydliad Materion Cymru, Geraint Talfan Davies, hefyd yn annerch y gynulleidfa i nodi'r penblwydd.

Hon bydd y cyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau pan fydd yr Ysgrifennydd Tramor yn annerch cynulleidfaoedd ar draws y DU. Ei fwriad yw egluro arddull y llywodraeth tuag at ei bortffolio ac yn enwedig sut y bydd hyn yn delio â'r anawsterau cyfredol yn

yr economi bydol. Am fanylion, e-bostiwch Sefydliad Materion Cymru ar wales@iwa.org.uk.

3ydd Gwobrau Egni Cynaladwy Ewrop

Hoffech chi gael cydnabyddiad i'ch ymrwymiad ac ymdrech i ynni cynaladwy ar lefel Ewropeaidd a chael cyfle o ennill gwobr yng nghwmni Uwch-swyddogion y Gymuned Ewropeaidd? Ymunwch a chystadleuaeth Gwobrau Ynni Cynaladwy Ewrop nawr a dewch yn llysgennad o ragoriaeth Ewropeaidd mewn ynni cynaladwy.

Mae Ymgyrch Ynni Cynaladwy Ewrop (www.sustenergy.org) yn brif fenter o'r Comisiwn Ewropeaidd/Cyfarwyddiaeth Cyffredinol Trafnidiaeth ac Ynni sydd yn bwriadu hybu, arddangos a gwobrwyo prosiectau a rhaglenni rhagorol sydd â chanlyniadau nodedig.

Ymunwch fel partner swyddogol cyn 31 Hydref 2008 ac fe gewch eich rhoi yn y gystadleuaeth a seremoni fawreddog flynyddol, i'w gynnal ym Mrwsel ar 10 Chwefror 2009.

Am fanylion ar sut i ymuno a'r ymgyrch ac enwebu'ch prosiect yn y gystadleuaeth eleni, cysylltwch â Marc Patuzzo, Sustainable Energy Europe Campaign ar +32 2 340 30 69 neu pr@sustenergy.org.
Gwelwch www.sustenergy.org/tpl/page.cfm?pageName=award_competition.

CELT Casnewydd yn Ymchwilio i ADCDB

Mae canolfan CELT newydd Prifysgol Cymru, Casnewydd (Centre for Excellence in Learning and Teaching) wedi blaenoriaethu Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaladwy a Dinasyddiaeth Fydol (ADCDB) ar gyfer eu gwaith ymchwil i ddulliau ac ymarferion dysgu. Er na chaiff ei lansio'n swyddogol nes 3 Rhagfyr, mae gwaith ymchwil ADCDB wedi dechrau'n barod.

Bydd Cyfarwyddwr CELT, Yr Athro Simon Haslett, yn cydlynu gwaith ymchwil yn y maes yma ac mae wedi clustnodi arian CELT ar gyfer bwrsari PhD llawn amser ar ADCDB.

Mae gwaith arall yng Nghasnewydd yn cynnwys datblygu astudiaeth achos ar-lein o *e-Inclusion Recycling* gan Sefydliad Dysgu Digidol a Chynhadledd Ryngwladol Adfywiad a Dysgu ar 20-23 Hydref.

Cynhaliodd CELT gyfarfod Rhwydwaith ADCDB Cymru yng Nghasnewydd mis Medi oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru a holl sefydliadau addysg uwch Cymru. Gwelwch http://celt.newport.ac.uk.

Dysgwch am Waith 'Parget' yn Tŷ Mawr

Mae llawer yn gyfarwydd â'r enw 'Pargetter', yn enwedig y rhai sy'n gwrando ar raglen 'The Archers' ar y radio, ond ydych chi wedi ystyried o ble ddaw'r enw hwn?

Mae'r gair 'parget' yn hen air Saesneg a ddaw yn debyg o'r hen air Ffrengig 'pargeter' sy'n golygu 'taflu o gwmpas' neu 'gast fras'. Erbyn hyn, golyga gwaith plastr calch addurnol ar gyfer welydd tu fewn neu du fas, simneiau a nenfydau. Daeth yn hynod ffasiynol ar ôl ei gyflwyniad gan Henry VIII hyd at oddeutu 1780 ond heddiw gwelir ef yn nwyrain Lloegr ar y mwyaf. Gellir dylunio ar y calch drwy fowldio, stampio neu ddylunio â llaw gan fod calch yn rhwyddach i ddylunio na phlastr gypswm modern.

Mae'r ganolfan gynadledda a hyfforddi newydd yn Nhŷ Mawr, Llangasty ger Aberhonddu yn rhedeg cyrsiau ar waith parget a gwaith plastr calch addurniadol. Cysylltwch â Tŷ Mawr ar 01874 658000 neu e-bostiwch mike.scruby@lime.org.uk.

Hyfforddiant Organig Drwy Gerdyn Fflach

Mae Rhwydwaith Garddwriaeth Cymru ar y cyd â Choleg Garddwriaeth Cymru a Chanolfan Organig Cymru wedi creu cwrs hyfforddi a dysgu ar gyfer tyfu ffrwyth a llysiau o fewn y sector tyfu bwyd Gymraeg.

Mae Tyfu Ffrwythau a Llysiau Organig - Canllaw i Ffermwyr a Thyfwyr yn generig yn ei arddull i dyfu ffrwythau a llysiau a gellir ei ddefnyddio yn rhwydd gan dyfwyr confensiynol.

Mae hon yn gwrs dysgu o bellter sydd yn dod ar gerdyn fflach i alluogi myfyrwyr a thyfwyr ddysgu gwersi sylfaenol tyfu ffrwythau a llysiau yn eu hamser ac ar gyflymdra eu hunain. Mae'r rhaglen yn hollol ryngweithiol a gall fyfyrwyr ddilyn y cwrs o gam un drwyddo i gam 11 neu ganolbwyntio ar wahanol fodiwlau fel y mynnent.

Cysylltwch â Rhwydwaith Garddwriaeth Cymru ar 01558668023 neu e-bostiwch HNW@wcoh.ac.uk.

Hyrwyddwyr Ifanc ar Newid Hinsawdd 2009

Lansir cystadleuaeth mis Hydref i ddarganfod Hyrwyddwyr Ifanc Newid Hinsawdd Cymru i 2009. Bydd enillwyr yn bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed sydd yn frwdfrydig am yr amgylchedd ac sydd â diddordeb mewn helpu lleihau ôltroed carbon Cymru.

Blwyddyn ddiwethaf enwyd chwe pherson ifanc yn Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn dilyn eu llwyddiant, lansir y gystadleuaeth am yr ail dro eleni.

Bydd hyrwyddwyr yn gwario blwyddyn yn y ‘swydd’ i berswadio ffrindiau teulu a chymunedau i gymryd camau i daclo newid hinsawdd. Bydd trip hel ffeithiau i Ewrop i weld sut mae gwledydd eraill yn lleihau’u hallyriannau carbon a digwyddiadau ledled Cymru lle byddant yn cyfarfod a phobl o gyfarwyddwyr cwmni i Brif Weinidog Cymru a’r cyfryngau.

Meddai Hyrwyddwr 2008 Adam Amor:

‘Mae bod yn Hyrwyddwr Hinsawdd Ifanc wedi rhoi hwb ychwanegol i mi, fy nheulu a chymuned i feddwl am bopeth fyddwn yn ei wneud.’

E-bostiwch climate-change@wales.gsi.gov.uk neu gwelwch www.wales.gov.uk/climatechange.

NEWYDDION BYDOL

nrg4SD St Malo

Bydd Rhwydwaith Llywodraethau Rhanbarthol ar gyfer Datblygiad Cynaladwy (nrg4SD) yn cynnal uwch-gynhadledd bydol yn Sain Malo, Llydaw 29-30 Hydref, yr SM08.

Newid hinsawdd bydd prif bwnc SM08 a bydd y cyfarfod yn gymysgedd o ranbarthau o'r gogledd a'r de gyda sylw arbennig at gyfraniad merched i ddatblygiad cynaladwy.

Dylai SM08 fod yn garreg filltir ac yn gyfle gwych i nrg4SD gyflawni 3 gorchwyl sy'n hanfodol at waith y Rhwydwaith:

a) Creu cynnwys ffurfiol gwleidyddol cryfach gan ddangos bod llywodraethau rhanbarthol a lleol yn gallu cynhyrchu cyfraniad gwerthfawr ar faterion newid hinsawdd.

b) Ymestyn aelodaeth y rhwydwaith i lywodraethau lleol newydd i gryfhau'r gynulleidfa a chyfoethogi ei gyfraniad ar faterion bydol gyda phrofiadau ymarferol.

c) Galluogi sefydliadau rhyngwladol, asiantaethau ac unrhyw lywodraeth leol sy'n delio â materion datblygu cynaladwy i ystyried nrg4SD fel dewis cyntaf o bartner.

Ceir manylion pellach ar: http://www.worldsummitofregions.org/en/index.php.

CAMAU BACH, EFFAITH MAWR

Pôl Piniwn

Gofynom ni: pa mor aml byddwch yn bwyta pryd meicrodon?

Ateboch chi:
- Yn aml iawn 5%
- Ambell i waith y mis 18%
- Braidd byth 9%
- Byth 68%

Thema mis nesaf yw arian. Ewch i www.cynnalcymru.com ac atebwch y cwestiwn hon:

Pa mor bwysig yw materion 'gwyrdd' ynghanol argyfwng ariannol byd-eang?

- Llai pwysig
- Nid yw'n fwy neu'n llai pwysig nag unrhywbryd arall
- Mwy pwysig fyth

Dyfyniad y Mis:

'Mae pecynnau o amgylch prydau parod ar gyfer eu coginio yn y meicrodon wedi eu creu ar gyfer bywyd siop o falle chwe mis, amser i'w goginio o ddwy funud ac amser marw mewn tirlenwad o ganrifoedd.'
David Wann, Buzzworm, Tachwedd 1990.

Amcangyfrir bod traean o'n bwyd yn mynd i dirlenwad, dyma gyngor cwta i wneud gwahaniaeth:

Diod oer i'ch llysiau
Rhowch fwydydd fel moron neu giwcymbrau sydd wedi meddalu mewn dŵr oer - byddant yn caledu o fewn dim. Gofalwch bod eich oergell rhwng 1 a 5 gradd ganradd er mwyn i fwyd bara mor hir â phosibl.

Beth yw'r cynllun?
Cynlluniwch beth fyddwch yn coginio am wythnos neu ddwy yna prynwch ond yr hyn sydd angen arnoch - agorwch eich cypyrddau cyn mynd i siopa gan efallai bod gennych chi lawer ohono yn barod!

Peidiwch wastraffu'r gwin!
Rhewch win sydd dros ben. Rhannwch rhwng blychau iâ ac yna gollyngwch giwb mewn wrth i chi goginio i wella blas eich hoff brydau.

Codi pac?
Mae prydau wedi'u prosesu gan amlaf yn llawn ychwanegion a phecynnu ychwanegol hefyd! Wrth brynu nwyddau rhydd, ffres dim ond yr hyn sydd angen arnoch sydd rhaid eu prynu.

Redi stedi cwc!
Unwaith yr wythnos coginiwch bryd gan ddefnyddio ond yr hyn sy yn y rhewgell a chypyrddau. Gall fod yn syndod sut brydau blasus gallwch greu! Mae nifer o ryseitiau ar-lein i'ch helpu hefyd os bydd angen.

Cael y mesur arni
Mesurwch reis a phasta cyn eu coginio. Yn fras, mae oedolyn angen 75ml - pum llwy fwrdd o reis.

Arafwch lawr
Dechreuodd y symudiad Bwyd Araf yn yr Eidal yn yr 80au fel ymateb i gynnydd bwyd cyflym gyda phwyslais ar fwyd lleol, ffres o'r cynhaeaf sydd ar gael. Mae sefydliadau bwyd araf mewn dros 120 gwlad gyda thua 100,000 aelod erbyn hyn!

Ailddefnyddiwch
Rhowch gynnig ar gompostio i gael gwared ar groen ffrwythau a llysiau, bagiau te a

phlisgyn wy. Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru nawr yn dechrau casglu eich holl fwyd gwastraff o'ch stepen drws.

SAFBWYNT

Gwobrau Cynaladwyedd Abertawe yn Edrych i'r Dyfodol

Philip McDonnell oedd un o gydlynwyr Gwobrau Abertawe Cynaladwy eleni. Yma mae Philip yn rhannu'i feddyliau ar y gwobrau a'r enillwyr eleni.

Mae'r rhan fwyaf ohonom erbyn hyn yn ymwybodol bod angen gweithredu i wella'r amgylchedd, arbed adnoddau a gwarchod dyfodol y blaned ar gyfer cenhedloedd i ddod. Beth sy'n llai amlwg efallai, yw beth yn union dylem wneud i wella'r sefyllfa. Un peth gall helpu yma yn sicr yw enghreifftiau ymarferol, clodwiw sy'n arddangos beth yn union gallwn gyflawni.

'Mae Gwobrau Abertawe Cynaladwy yn dangos beth mae unigolion a sefydliadau lleol yn cyflawni er mwyn gwneud gwahaniaeth,' meddai Philip. 'Eleni, byr-rhestrwyd un-ar-hugain prosiect mewn saith categori.'

Cyhoeddwyd yr enillwyr mewn seremoni fawreddog yn Neuadd Brangwyn ar yr 22ain o Orffennaf.

Golygydd yr Evening Post, Spencer Feeney, oedd llywydd y noson, a bu anerchiad arbennig gan y cyflwynydd teledu Jason Mohammad a eglurodd ei ddealltwriaeth ef o gynaladwyedd wrth gyfeirio at ei brofiadau yn adrodd yn ôl o Uwch Gynhadledd y Ddaear yn Johannesburg yn 2002.

'Y saith categori oedd busnesau bach a mawr, prosiectau cymunedol bach a mawr, ysgolion, asiantaethau cyhoeddus ac unigolion arbennig,' meddai Philip.

Bu panel o 14 beirniad o feysydd yr amgylchedd, addysg, datblygiad ac adfywiad cymunedol yn ystyried y 45 cais a dewiswyd tri ymgeisydd ymhob categori i fynychu'r seremoni gwobrwyo. Eglura Philip:

'Roedd y safon ar gyfer gwobrau eleni yn rhagorol ac ni fu'n orchwyl rhwydd i'r beirniaid o bell ffordd. Roedd yna fwrlwm o gyffro ymysg yr holl ymgeiswyr ac eraill a fu'n rhan o'r prosiect, ond bu enwau'r enillwyr yn gyfrinach hyd y noson wobrwyo lle'u cyhoeddwyd hwy gan noddwyr y categorïau yn steil yr 'Oscars'!'

Bu Gwobrau Abertawe Cynaladwy 2008 yn bartneriaeth rhwng Fforwm Amgylcheddol Abertawe ac Uned Datblygiad Cynaladwy Dinas a Sir Abertawe. Fe'u noddwyd gan Hammerson ac Urban Splash mewn cysylltiad â South Wales Evening Post. Noddwyd pob un o'r gwobrau ar wahân hefyd a derbyniwyd cyfraniadau mewn modd arall gan sawl sefydliad.

'Un o'r pethau mwyaf rhyfeddol am wobrau eleni oedd nid yn unig safon y nifer o geisiadau a'u derbyniwyd ond, hefyd, bod dwsinau o sefydliadau wedi bod yn barod i noddi'r prosiect.

'Rwy'n credu bod hyn yn dangos pa mor bwysig mae'r materion yma erbyn hyn a'r

proffil cynyddol mae'r gwobrau yn medru ei ddenu,' ychwanega Philip.

Mae rhestr lawn o enillwyr a cheisiadau cymeradwyol ar gael ar http://www.sustainableswansea.net.

Aeth y wobr dros ben a'i noddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd i Down to Earth, ag enillodd wobr y Co-operative am brosiect cymunedol mawr hefyd. Menter gymdeithasol wedi ei leoli yn Owensfield Gŵyr ydyw sy'n darparu rhaglenni sy'n torri tir newydd ar addysg cynaladwyedd ar gyfer ieuenctid a chyrsiau i oedolion mewn dulliau adeiladu traddodiadol, byw'n wyllt a rheoli coedlannau. Nodwyd eu hymroddiad i egwyddorion cynaladwyedd a'r safon uchel o gyflawniad mewn amser byr.

Canolfan Galw Heibio Blaenymaes enillodd wobr prosiect cymunedol bach SCVS. Mae'r ganolfan yn gyfleuster o dan reolaeth y gymuned sy'n cynnwys cydweithfa ffrwythau a llysiau, siop ddillad fforddiadwy, cyfleusterau hyfforddiant cymunedol a gardd. Nodwyd cyflawniad y gwirfoddolwyr brwdfrydig ac ymroddgar.

Yn aml, mae llwyddiant prosiectau a sefydliadau yn ddibynnol ar waith caled ac ymroddiad unigolion. Cydnabuwyd hyn drwy wobr unigolion Abertawe Cynaladwy a'i noddwyd eleni gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Myfyrwraig o Brifysgol Abertawe, Catherine McMillan, enillodd y wobr am ei gwaith yn hybu ailgylchu, masnach deg a chadwraeth ac am fod yn hyrwyddwr brwdfrydig o'r amgylchedd ymysg staff a myfyrwyr.

Cymeradwywyd John Fry, gwirfoddolwr hirdymor ac ymroddgar gyda phrosiect More Green ac Alan Brayley, Cyfarwyddwr AB Glass am eu cyfraniad tuag at gynaladwyedd yn Abertawe.

DIGWYDDIADAU – BETH SY' MLAEN

Hydref

11 Hydref
Cynhadledd Schumacher Bryste - 'Llai yw mwy: gallwn ni fyw yn well drwy ddefnyddio llai?' Bristol Council House, College Green 9.45yb - 6yh. Cadeirydd Jonathon Porritt. Gwelwch www.schumacher.org.uk/bsl08.htm.

13 Hydref
Wythnos 6 Hyd: Cyflwyniad i Sgiliau Technegol Dysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

13 Hydref
Wythnos 13 Hyd: Cyflwyniad i Ddysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

13 Hydref
Wythnos 13 Hyd: Dysgu Awyr Agored, Cynaladwyedd a Dinasyddiaeth Fydol Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

16 Hydref
Dathlu penblwydd Sefydliad Materion Cymru yn 21ain oed gyda siaradwr gwâdd yr Ysgrifennydd Tramor Rt Hon David Miliband AS. Gwesty St David's, Caerdydd. E-bostiwch mwales@iwa.org.uk.

18 Hydref
Rendro calch, gyda phwyslais ar yr haen gyntaf. Helpwch greu popty cob a sedd ar fferm Amelia Trust. Cysylltwch â Anna ar 02920403399 neu training@rounded-developments.org.uk.

20 Hydref
Wythnos 20 Hyd: Dysgu Awyr Agored, Cynaladwyedd a Dinasyddiaeth Fydol Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

20 Hydref
Wythnos 20 Hyd: Cyflwyniad i Ddysgu Awyr Agored Rhan 1 Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

20 Hydref
Wythnos 20 Hyd: Gweithio ar Dyfiant Personol drwy Ddysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

20 Hydref
Wythnos 20 Hyd: Sut i Sefydlu Eich Prosiect Cymunedol Dysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

22 Hydref
Cynhadledd Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl Cymru Gyfan, 'Addasu i Ddigwyddiadau yn Eich Bywyd a'u Heffaith ar Iechyd Meddwl' Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd. Cysylltwch â Nathan.Jones@wch.wales.nhs.uk neu 029 2022 7744. Gwelwch http://www.publicmentalhealth.org/events.cfm?orgid=749&id=2263.

23 Hydref
Digwyddiad rhad ac am ddim Clwb Teml WCIA - Effaith Olew Brig ar Ddatblygiad Rhyngwladol, yn Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd. Cysylltwch â Sue Coles ar 029 2022 8549 neu suecoles@wcia.org.uk.

25 Hydref
Rendro calch, gyda phwyslais ar yr haenen top. Helpwch greu popty cob a sedd ar fferm Amelia Trust. Cysylltwch â Anna ar 02920403399 neu training@rounded-developments.org.uk.

25 Hydref
Mae SUSSED & Cymru Gynhaliol yn cynnal Gŵyl Ffilm i godi arian 3-9yh yn Eglwys y Drindod, Porthcawl.
Gwelwch http://www.facebook.com/n/?event.php&eid=28385478166.

27 Hydref
Wythnos 27 Hyd: Sut i Sefydlu Eich Prosiect Cymunedol Dysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

27 Hydref
Wythnos 27 Hyd: Gweithio ar Dyfiant Personol drwy Ddysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

27 Hydref
Wythnos 27 Hyd: Dysgu Awyr Agored, Cynaladwyedd a Dinasyddiaeth Fydol Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

29 Hydref
Lansiad 'King Driftwood,', llyfr newydd o gerddi gan Robert Minhinnick. Gyda cherddoriaeth fyw a chyfeiliant. 8yh yng Ngwesty Lorelei, Esplanade Av., Porthcawl. Mynediad am ddim.

29-30 Hydref
SM08: Uwch-gynhadledd Rhwydwaith Llywodraethau Rhanbarthol ar gyfer Datblygiad Cynaladwy yn Sain Malo, Llydaw.
Gwelwch http://www.worldsummitofregions.org/en/index.php.

Tachwedd

3 Tachwedd
Wythnos 3 Tach: Gweithio ar Dyfiant Personol drwy Ddysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

3 Tachwedd
Wythnos 3 Tach: Sut i Sefydlu Eich Prosiect Cymunedol Dysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

7 Tachwedd
Plastro Calch, Calch Ty-Mawr. Ebostiwch mike.scruby@lime.org.uk.

7 Tachwedd
Darlith NASEG Phil Williams ym Mhrifysgol Caerdydd. Eleni, y prif siaradwr bydd Matthew Farrow, Pennaeth Polisi Amgylcheddol yng Nghydffederasiwn Diwydiant Prydain. Gwelwch www.naseg.co.uk/about/about.html.

28 Tachwedd
Byd Cynaladwy, Poblogaeth Cynaladwy - Lleihau'r Ôltroed. Trafodaeth ymgynghorol, Future Inn, Bae Caerdydd, 10yb - 4yp. Cadeiriwyd gan Dr Rob Humphries, Prifysgol Agored Cymru a'r Parchedig Robin Morrison, Eglwys Cymru. Cysylltwch â Lisa Martin ar 029 2034 8252.

30 Tachwedd
Ffair Werdd Abertawe 10yb–4yp, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe. Ffoniwch 01792 480200 neu gwelwch www.environmentcentre.org.uk.

Rhagfyr

1 Rhagfyr
Wythnos 1 Rhag: Rôl Dysgu Awyr Agored mewn Ymarferion Bywyd Cynaladwy Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

Ionawr

5 Ionawr
Wythnos 5 Ionawr: Cyflwyniad i Ddysgu Awyr Agored, Iechyd a Lles Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

5 Ionawr
Wythnos 5 Ionawr: Cyflwyniad i Sefydlu Menter Gymdeithasol Dysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

12 Ionawr
Wythnos 12 Ionawr: Cyflwyniad i Ddysgu Awyr Agored, Iechyd a Lles Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

12 Ionawr
Wythnos 12 Ionawr: Cyflwyniad i Sefydlu Menter Gymdeithasol Dysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

19 Ionawr
Wythnos 19 Ionawr: Cyflwyniad i Ddysgu Awyr Agored, Iechyd a Lles Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063.

19 Ionawr
Wythnos 19 Ionawr: Cyflwyniad i Sefydlu Menter Gymdeithasol Dysgu Awyr Agored Rhan 1. Am ddyddiau'r cyrsiau cysylltwch â Linda Evans ar 01443 483807 neu Theresa Watts ar 01443 483063